


EISTEDDFOD RHYS THOMAS JAMES



Llanbedr Pont Steffan, Awst 27 - 29, 2022

TESTUNAU'R ADRAN LENYDDOL

Beirniaid: Gwennan Evans a'r Prifardd Ceri Wyn Jones

Y Babell Lên (gan gynnwys y Talwrn):

Yr Hen Neuadd, Coleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant, nos Lun, 29 Awst, am 7 o'r gloch

1. Cystadleuaeth y Gadair.

Cerdd gaeth neu ddilyniant o gerddi caeth (hyd at 80 llinell) ar y testun 'Baner'
Gwobr: Cadair Fechan a £200

2. Cystadleuaeth y Goron.

Casgliad o gerddi rhydd (hyd at 100 llinell) ar y testun 'Diferion'
Gwobr: Coron a £200

3. Cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith.

Dwy ymson (hyd at 3,000 o eiriau) ar y testun 'Cwato'/'Cuddio'
Gwobr: Y Fedal a £200

4. Cystadleuaeth y Gadair i rai dan 25 oed.

Cerdd ar y testun 'Mur' neu 'Muriau'
Gwobr: Cadair Fechan a £150

5. Tlws Rhyddiaith leuenctid i rai dan 25 oed.

Darn o ryddiaith ar y testun 'Heulwen' neu 'Storm'
Gwobr: Tlws leuenctid a £150

6. Englyn.

Testun: 'Halen'
Gwobrau: 1. £50 2. £30 3. £15

7. Telyneg mewn mydr ac odl

Testun: 'Cwtsh'
Gwobrau: 1. £50 2. £30 3. £15

8. Cerdd yn y wers rydd.

Testun: 'Llosgi'
Gwobrau: 1. £50 2. £30 3. £15

9. Cywydd.

Testun: 'Cerddor'
Gwobrau: 1: £50 2. £30 3. £15

10. Soned.

Testun: 'Dianc'
Gwobrau: 1. £50 2. £30 3. £15

11. Rhyddiaith: Darnau o lên meicro (hyd at 800 o eiriau) ar y thema 'Taith'

Gwobrau: 1. £50 2. £30 3. £15

*** 12. Cystadleuaeth i ddysgwyr y Gymraeg: ***

Testun: 'Person arbennig'

12 a. Lefel Sylfaenol (hyd at 150 o eiriau)	- £20
12 b: Lefel Canolradd (hyd at 300 o eiriau)	- £20
12 c Lefel Uwch (hyd at 500 o eiriau)	- £20

13. Cyfansoddi tôn i emyn buddugol 2019 gan John Meurig Edwards. Gwobr £100.

Cynigion i law ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd, Delyth Morgans Phillips, Blaenfallen, Talsarn, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8QP erbyn dydd Gwener, 13 Awst.

Mewn byd sydd mor rhyfelgar,
Dy gymorth rho i ni;
Gad i ni brofi bendith
A rhin dy gariad Di;
Pan lethir ni gan ofn a braw,
O, dal ni'n gadarn yn dy law.

A boed i wledydd mawrion
Y byd i wneud eu rhan
Drwy estyn llaw brawdgarwch,
Ac ymgeleddu'r gwan;
Bod yn dosturiol wrth ymdrin
Â'r rhai sy'n ffoi rhag gormes blin.

Dilea bob gelyniaeth
Rhwing holl genhedloedd byd;
Boed heddwch rhwing y gwledydd,
Dysg i ni fyw ynghyd
Heb ragfarn na chenfigen cas;
Ar ein hymdrechion rho dy ras.

Tywys ein llywodraethwyr
I ddilyn llwybrau hedd,
I'n harwain mewn doethineb,
A gweinio llafn y cledd;
Holl bobloedd byd mewn harmoni,
Yn byw yng ngrym dy gariad di.

14. Talwrn y Beirdd.

Disgwylir i'r tîmau gofrestru erbyn **dydd Gwener, 19 Awst 2022**. Dim llai na 3 aelod ymhob tîm.

Gwobrau: 1. £150 a Tharian Sialens Goffa Jim Evans; 2. £100; 3. £50.

(Rhoddir £20 i bob tîm arall sy'n cystadlu).

I gofrestru, cysylltwch ag ysgrifennydd y Pwyllgor Llên, Marian Morgan: 07870515492 neu davies_marian879@hotmail.com

1. Rhaid i bob cynnig llenyddol fod yn llaw'r Pwyllgor Llên erbyn dydd Gwener, 12 Awst 2022. Er tegwch i'r beirniaid ni dderbynnir cynigion ar ôl y dyddiad hwn ac ni dderbynnir cynigion drwy e-bost.

Danfoner pob cais, ynghyd â ffugenw ac amlen sydd yn cynnwys eich enw, eich e-bost (os oes un gennyh), a'ch cyfeiriad a rhif ffôn, at gadeirydd y Pwyllgor Llên: Elin Williams, Y Garn, Cwm-ann, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 8EL

2. Traddodir y beirniadaethau yn y Babell Lên yn Hen Neuadd y brifysgol am 7 o'r gloch, nos Lun, 29 Awst, heblaw am y canlynol a draddodir oddi ar lwyfan yr Eisteddfod: cyst. 2, 4 a 5 ar y dydd Sadwrn, cyst. 12 ar y nos Sul, a chyst. 1 a 3 ar y dydd Llun.

3. Atelir y wobwr yng nghystadleuaeth y ddwy Gadair, y Goron, y Fedal Ryddiaith a'r Tlws Ieuenctid oni bydd y buddugol neu gynrychiolydd yn bresennol yn yr Eisteddfod.

3. Byddwn yn danfon eich beirniadaethau ar e-bost oni nodwch yn wahanol. Os ydych yn dymuno derbyn beirniadaeth ysgrifenedig drwy'r post, dylid nodi hynny wrth gystadlu a chynnwys amlen wedi'i stampio.

4. Rhaid i'r cyfansoddiadau i gyd fod yn Gymraeg, yn waith dilys y cystadleuydd, wedi'u hysgrifennu'n eglur neu wedi'u teipio, ar un ochr yn unig i ddalen A4, â'r tudalennau wedi'u gosod yn y drefn gywir.

5. Bydd hawlfraint yr holl gyfansoddiadau buddugol yn eiddo i Bwyllgor yr Eisteddfod.